

# Eich pasbort i daith ddiraffferth



Yr awgrymiadau gorau i  
deithwyr awyr anabl a'r rhai  
â lefelau symudedd is

[www.equalityhumanrights.com/airtravel](http://www.equalityhumanrights.com/airtravel)



## Eich hawliau

**Os ydych yn anabl neu'n ei chael hi'n anodd symud o gwmpas, gallwch gael cymorth rhad ac am ddim pan fyddwch yn hedfan i ac o'r Deyrnas Unedig ac Ewrop, gan gynnwys teithiau awyr mewnol.**

**O dan gyfraith Ewropeaidd, mae'r cymorth hwn i bawb sydd â gofynion symudedd – er enghraifft oherwydd eu hanabledd, oed neu anaf dros dro.**

Weithiau, fodd bynnag, ni fydd y cymorth a gewch, efallai, yn bodloni eich disgwyliadau neu gall diffygion cyfathrebu ddigwydd. Mewn rhai achosion prin, ni fydd eich gofynion, efallai, yn cael eu cwmpasu gan y gyfraith.

Mae'r daflen hon yn egluro eich hawliau a'r hyn sydd orau i chi ei wneud i sicrhau taith ddidrafferth.

Cewch rhagor o wybodaeth yn ein canllaw cam-wrth-gam rhad ac am ddim 'Eich Hawliau o ran Teithiau Awyr', ar gael o [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com) dim ond i chi ofyn amdano.





## Cyn i chi neilltuo'ch lle

**i** Bydd gan eich cwmni awyrennau neu'ch cwmni gwyliau gyfyngiadau diogelwch a all effeithio ar y cymorth a gewch.

Gofynnwch i'ch asiant neu gwmni gwyliau a oes unrhyw gyfyngiadau diogelwch sy'n gymwys ar eich taith a allai effeithio ar eich gofynion – megis cyfyngiadau ar gario silindrau ocsigen. Os oes, gofynnwch iddyn nhw a oes ganddyn nhw awgrymiadau ar sut i oresgyn eich problem.

**i** Oni bai fod rhesymau diogelwch cyfreithlon i'w hystyried, ni all neb wrthod gwasanaeth i chi oherwydd bod gofynion symudedd gennych. Mae rhaid i asiantaethau a chwmnïau teithio ystyried eich gofynion a dweud wrth y cwmni awyrennau amdanynt.

Meddyliwch am yr hyn y bydd ei angen arnoch pan fyddwch yn cyrraedd y maes awyr, yn symud o gwmpas y maes awyr neu pan fyddwch ar yr awyren – megis mwy o le, sedd wrth ymyl eich gofalwr neu le i'ch offer symudedd. Soniwch wrth eich asiant neu gwmni teithio am eich gofynion.

**i** Ar lwybrau cymeradwy a gyda chlundwyr cofrestredig caniateir i gŵn cymorth deithio gyda'u perchnogion ar yr awyren.

Dylech gael teithio gyda'ch ci cymorth cyn belled ag y bo'ch wedi cysylltu â'r cwmni awyrennau neu'r cwmni gwyliau ymlaen llaw.

Ymhell cyn i chi fynd ar eich taith, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am unrhyw gyfyngiadau a all fod ar ben y daith. Er enghraifft, efallai bydd angen brechiadau neu hyd yn oed gyfnod cwarantyn mewn rhai gwledydd.





## Neilltuo'ch taith awyr

**i** Mae rhaid i gwmnïau awyrennau, asiantau neu gwmnïau gwyliau wneud pob ymdrech rhesymol i ddarparu cymorth, hyd yn oed os gofynnir amdano ar y funud olaf cyn teithio.

Wrth i chi neilltuo'ch lle, dywedwch wrth eich cwmni awyrennau, asiant neu gwmni gwyliau am y cymorth sydd ei angen arnoch neu gwnewch hynny **o leiaf 48 awr** cyn i chi fynd ar eich taith. Gofynnwch am gadarnhad ysgrifenedig o unrhyw drefniadau cymorth a wneir ar eich rhan.

**i** Mae gofyniad cyfreithiol ar bob aelod o staff sy'n delio â chwsmeriaid i gael hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth o anabledd ac i ddysgu sut i ddiwallu eich anghenion.

I sicrhau bod eich taith mor ddidrafferth â phosibl, eglurwch fod angen cymorth arnoch oherwydd eich anabledd neu ofynion symudedd, a byddwch yn glir am yr hyn sydd ei angen arnoch. Os yw'n ymddangos na fydd yr unigolyn sy'n delio â chi yn gallu eich helpu, gofynnwch am weld polisiau'r cwmni awyrennau. Byddwch yn daer ond yn gwrtais ac, os oes angen, gofynnwch i siarad â'r rheolwr.



## Yswiriant teithio

**i** Os caiff offer ei ddifrodi neu'i gollu yn ystod y daith awyr, dim ond iawndal cyfyngedig sydd rhaid i'r cwmni awyrennau ei dalu.

Os bydd rhaid i chi gymryd offer symudedd drud gyda chi ar yr awyren, gwnewch yn siŵr bod eich yswiriant teithio yn ei gynnwys. Cymerwch luniau cyn i chi deithio fel y gallwch ddarparu tystiolaeth i ategu unrhyw hawliad os byddwch yn gweld unrhyw ddifrod.





## Paratoi i deithio

**i** Mae gofyn i bob maes awyr fodloni lefelau hygyrch sylfaenol a gwneud ‘addasiadau rhesymol’.

Canfyddwch ymlaen llaw am gynllun y maes awyr a'i gyfleusterau drwy edrych ar ei wefan neu gysylltu â'i wasanaeth gwybodaeth i gwsmeriaid.

Rhowch labeli clir, sy'n cynnwys eich manylion cyswllt, rhif eich taith ac unrhyw ofynion am daith ddiogel, ar bob un o'ch offer symudedd.

Cofiwch ddod â'ch cadarnhad ysgrifenedig gyda chi o'r trefniadau cymorth a gytunwyd arnynt.

Cyn i chi gyrraedd y maes awyr, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble i fynd, sut i adael iddyn nhw wybod eich bod wedi cyrraedd a pha drefniadau a wnaed i'ch cynorthwyo, er enghraifft unrhyw gyfleustra parcio neu drefniadau trosglwyddo.





## Yn y maes awyr

**i** Mae rhaid i feysydd awyr ddarparu cymorth rhad ac am ddim i alluogi teithwyr anabl a llai symudol i gofrestru, mynd i'r toiled os bydd angen a chyrraedd eu seddau yn yr awyren.

I wneud eich taith mor ddidrafferth â phosibl, holwch am yr hyn fydd yn digwydd yn y cyfnod cyn i chi fynd ar yr awyren. Gofynnwch am enwau a manylion cyswllt y rhai a all helpu os bydd problemau yn codi ar hyd y ffordd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd unrhyw oedi.





## Wrth y ddesg gofrestru

**i** Unwaith i chi gael cadarnhad y bydd eich gofynion yn cael eu diwallu, cyfrifoldeb eich cwmni awyrennau yw cyflawni ei addewid i chi.

Fodd bynnag, peidiwch â thybio y bydd yn digwydd yn awtomatig.

Dangoswch gadarnhad ysgrifenedig eich trefniadau cymorth a neilltuwyd i chi ymlaen llaw i aelodau staff y ddesg gofrestru a byddwch yn ofalus i ofyn iddyn nhw gadarnhau'r trefniadau. Os oes angen sedd â mwy o le arnoch neu sedd wrth ymyl eich gofalwr, gofynnwch i staff y ddesg gofrestru gadarnhau bod y seddau a neilltuwyd i chi yn ateb eich gofynion. Mae'n bwysig i chi sierhau bod unrhyw broblemau a godir ynglŷn â hyn yn cael eu datrys wrth gofrestru, gan na fydd hi'n bosibl, fel arall efallai, eu datrys yn ddiweddarach.





## Mynd ar yr awyren

**i** Mae rhaid i'r maes awyr ddarparu cymorth i'ch galluogi i fynd ar yr awyren, gyrraedd eich sedd a storio eich bagiau.

Fel arfer, caiff teithwyr anabl a llai symudol eu galw'n gyntaf i fynd ar yr awyren.

Eglurwch wrth staff y fynedfa i fynd ar yr awyren am eich gofynion cymorth neu'r offer sydd gennych. Gofynnwch iddyn nhw drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r aelodau staff ar yr awyren. Cyn gynted ag i chi gyrraedd drws yr awyren cadarnhewch hyn gyda'r aelodau staff ar yr awyren.





## Cymorth ar yr awyren

**i** Mae rhaid i gwmnïau awyrennau wneud pob ymdrech rhesymol i drefnu seddau addas ar eich cyfer chi a'ch gofalwr. Mae rhaid iddyn nhw hefyd eich cynorthwyo i fynd i'r toiled ac yn ôl, os bydd angen.

Eglurwch wrth y staff ar yr awyren am unrhyw broblemau sydd gennych am y trefniadau ar gyfer eich sedd neu am fynediad at gyfleusterau. Os gallwch, awgrymwch atebion posibl.

**i** Gallwch gymryd dwy eitem o offer symudedd ar yr awyren, cyn belled na'u bod yn torri gofynion diogelwch y cwmni awyrennau.

Os bydd unrhyw ddadlau ynglŷn â'ch offer symudedd wrth i chi fynd ar yr awyren, dangoswch y ffurflenni sy'n cadarnhau'r offer a ofynnoch amdano, a thrafodwch gyda'r staff sut yr hoffech iddyn nhw ei drin, a'i storio a sicrhau ei fod wrth law.



**i** Mae rhaid i'r cwmni awyrennau roi gwybodaeth hanfodol i chi am y daith awyr mewn fformat hygyrch.

Byddwch yn glir gyda staff y daith awyr am y fformat y bydd ei angen arnoch i gael mynediad at wybodaeth. Mae rhaid iddyn nhw roi cymorth i chi yn rhinwedd eu swydd.



## Gadael yr awyren

**i** Nid yw cyfrifoldeb y cwmni awyrennau drosoch chi yn darfod nes i'r awyren lanio'n ddiogel.

Heblaw eich bod ar frys, chi, fel arfer, fydd yr olaf i adael yr awyren gan ei bod yn haws i symud o gwmpas awyren wag.

Os oes offer symudedd gennych chi ar yr awyren; i wneud eich taith mor ddidrafferth â phosibl, dywedwch wrth y staff ar yr awyren cyn iddi lanio sut yr hoffech chi i'r offer gael ei drosglwyddo gyda chi, fel y gallan nhw drefnu hyn ymlaen llaw os bydd angen.



## Os aiff rhywbeth o'i le

**i** Mae maint yr iawndal y gallwch ei gael am unrhyw beth sy'n digwydd ar yr awyren yn gyfyngedig i iawndal ar gyfer marwolaeth neu anaf ac am fapiau coll. Nid yw'r llysoedd, ar hyn o bryd, yn gallu dyfarnu iawndal dros deimladau dolurus oherwydd cyfyngiadau yng Nghonfensiwn Montreal sy'n rheoli atebolrwydd cwmnïau awyrennau dros golledion ac anafiadau personol ar deithiau awyr rhyngwladol a domestig.

Os na chewch y cymorth sy'n ddyledus ichi, cwynwch yn syth wrth y maes awyr neu'r cwmni awyrennau. Gallwch hefyd gwyno wrth yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA).





## Cwyno

Nid yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn delio â chwynion am fynediad at deithiau awyr. Yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yw'r corff sy'n ymdrin â chwynion gan deithwyr ac unigolion anabl a llai symudol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

### **Sut i gysylltu â'r CAA:**

**Gwefan:** [www.caa.co.uk](http://www.caa.co.uk)

### **Llinell Gymorth Defnyddwyr:**

020 7453 6888 (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9:00am i 5:00pm). Os ydych yn Fyddar neu mae nam ar eich clyw, cysylltwch drwy Typetalk.

**Ffacs:** 020 7453 6754

**E-bost:** [passengercomplaints@caa.co.uk](mailto:passengercomplaints@caa.co.uk)

### **Post:**

Passenger Advice and Complaints Team,  
Civil Aviation Authority,  
4th Floor, CAA House, 45-59 Kingsway,  
London WC2B 6TE

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o wefan y Comisiwn: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com).  
I gael gwybodaeth am gael cyhoeddiad y Comisiwn mewn fformat arall, cysylltwch â: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com).

Ar gyfer cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar gydraddoldeb, materion gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol rhad ac am ddim.

Gwefan [www.equalityadvisoryservice.com](http://www.equalityadvisoryservice.com)

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn Testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 20:00  
(Dydd Llun i Ddydd Gwener)  
10:00 i 14:00 (Dydd Sadwrn)

Post RHADBOST Equality Advisory  
Support Service FPN4431

© 2014 Hawlfraint y Goron

ISBN 978-1-84206-543-3

Fe'i cyhoeddwyd 07/2014